Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Fframwaith Rheoli Risg A Buddion

Gwneud Gwahaniaeth

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Fframwaith Rheoli Risg A Buddion

Gwneud Gwahaniaeth

Neges gan Claire Clancy
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae sefydliadau wedi treulio amser ac egni cynyddol ar lywodraethu corfforaethol a rheoli risg. Gwn y gall y pwnc “risg” ei hun wneud i chi boeni am fiwrocratiaeth a chael proses newydd arall eto. Mewn gwirionedd, credaf fod rheoli risg effeithiol yn ddull gwirioneddol gadarnhaol ar gyfer unigolion a’u sefydliadau—gall eu helpu i “*wneud gwahaniaeth*”. Mae llawer mwy iddo na llenwi ffurflenni yn unig—mae rheoli risg yn golygu cael diwylliant, prosesau a’r strwythur sydd, gyda’i gilydd, yn golygu:

- ein bod yn cael y mwyaf o gyfleoedd posibl;
- lleihau effaith y bygythiadau i’r sefydliad ac, yn y pen draw;
- cyflawni ein hamcanion.

Diben cael fframwaith rheoli risg yw annog pobl i gymryd risgiau wedi’u rheoli. Nid yw’n ymwneud ag osgoi cymryd risgiau. Gall cymryd risgiau wedi’u rheoli olygu y gallwn wneud y mwyaf o gyfleoedd newydd a defnyddio dulliau arloesol. Mewn gwirionedd, mae’n atal sefydliadau rhag osgoi risg. Mae cael iaith gyffredin a phroses o uwchraddio ar gyfer risgiau hefyd yn helpu i sicrhau bod camau prydlon ac addas yn cael eu cymryd—mae’n rhoi ffordd i bawb godi materion sydd o bosibl yn eu poeni. Felly, rwyf yn awyddus bod gennym y dull gorau posibl o reoli risg ac rwyf yn credu y bydd mabwysiadu a chroesawu’r fframwaith hwn yn rhoi buddion gwirioneddol i ni, fel yr amlinellir yn y ddogfen hon.

Claire Clancy
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

Cyflwyniad

Diffiniadau o risg a rheoli risg

1. Caiff risg ei ddiffinio fel: “uncertainty of outcome, whether positive opportunity or negative threat, of actions and events” [1].

2. Mae rheoli risg yn nodi’r risgiau i weithrediadau ac amcanion sefydliad, y tebygolrwydd y bydd y risgiau hyn yn cael eu gwireddu ac effaith hynny, a’r trefniadau i’w lliniaru.

Rheoli risg yn ei gyd-destun

3. Mae llywodraethu da yn ymwneud â sicrhau bod sefydliad yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, ar gyfer y bobl iawn, mewn ffordd agored, gonest, cynhwysol ac amserol. Mae rheoli risg yn rhan annatod o lywodraethu da[2], ac mae rheoli buddion yn ymestyn hyn i gynnwys canlyniadau cadarnhaol rheoli risg yn effeithiol a gwireddu cyfleoedd.

4. Y pwynt cychwyn yw’r hyn y mae’r sefydliad eisiau ei gyflawni. Drwy ddefnyddio’r wybodaeth ynghylch parodrwydd y sefydliad i gymryd risg, gellir rheoli risgiau i ategu a sicrhau llwyddiant, a fydd yn ymestyn i wireddu cyfleoedd i wella. Bydd dull cynhwysol, gyda dealltwriaeth a rennir ynghylch terminoleg a buddion busnes, ac ymrwymiad o’r brig, yn datblygu diwylliant o fod yn ymwybodol o risg, ac o ganolbwyntio ar berfformiad ac awydd ymysg yr holl staff i wella pethau.

5. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i gael dull rhagweithiol i reoli risg a buddion sydd wedi’i chynnwys yn y fframwaith llywodraethu a’r cylchoedd cynllunio.

Diben y Fframwaith Rheoli Risg a Buddion

6. Diben cael fframwaith rheoli risg a buddion yw:
   - annog pobl i gymryd risgiau wedi’u rheoli, i beidio ag osgoi risgiau, ac i’n helpu i beidio bod yn wrth-risg;
   - annog pobl i fanteisio ar gyfleoedd newydd; a
   - annog pobl i fabwysiadu dull arloesol o ddatrys problemau.

[1] Trysorlys EM, The Orange Book: Management of Risk – Principles and Concepts

[2] Y Comisiwn Archwilio

7. Bydd mabwysiadu a chroesawu'r fframwaith:
   - yn cynyddu ein rhagolygon o ran cyflawni ein nodau, ein hamcanion a'n blaenoriaethau drwy nodi a rheoli'r bygythiadau a'r cyfleoedd;
   - yn cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu sut y dyrennir adnoddau drwy nodi risgiau a materion yn glir a'u pwysigrwydd mewn perthynas â chyflawni'r nodau a'r amcanion hynny;
   - yn rhoi rhybudd cynnar ynglŷn ag unrhyw broblemau posibl;
   - yn llywio gwelliannau i'r gwasanaeth yn hytrach nag amlygu methiannau;
   - yn darparu iaith gyffredin a phroses gynyddol ar gyfer risgiau i helpu i sicrhau bod camau prydlon ac addas yn cael eu cymryd; ac
   - yn rhoi'r sgiliau i bawb fod yn hyderus i gymryd risgiau, gan alluogi eraill i gymryd mwy o risg, ac nid llai!

8. Mae'r fframwaith hefyd yn ceisio sicrhau y gall y Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, gyflawni ei chyfrifoldebau o dan y Datganiad ar Reolaeth Fewnol, sydd hefyd yn ffurfio rhan o Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y Cynulliad. Ceir manylion y fframwaith hwnnw ar wefan y Cynulliad.

Y Fframwaith

9. Mae dwy ran i'r fframwaith hwn, sef y polisi a'r broses:

   Rhan 1: Mae'r Polisi Rheoli Risg a Buddion yn amlinellu ein dull o reoli risg a buddion, rolau a chyfrifoldebau, y prif brosesau a'r trefniadau adrodd yn ôl.

   Rhan 2: Mae'r adran am **y Broses Rheoli Risg a Buddion** yn disgrifio'r gweithdrefnau a'r prosesau y dylid eu dilyn i weithredu'r Polisi Rheoli Risg a Buddion.

Cyflwynwyd y fframwaith ym mis Mehefin 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Fframwaith Rheoli Risg A Buddion

Rhan 1: Polisi Rheoli Risg A Buddion

Cynnwys

1. Diben ac amcanion y polisi

2. Y parodrwydd i gymryd risg

3. Cyfrifoldebau

4. Y prosesau a'r trefniadau allweddol ar gyfer adrodd yn ôl

5. Canlyniadau

Atodiad A: Manylion y cyfrifoldebau yn ôl y categori risg

Atodiad B: Y berthynas â pholisïau eraill

Adran 1: Diben ac amcanion y polisi

1. Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein dull o reoli risg a buddion, rolau a chyfrifoldebau, prosesau allweddol a threfniadau adrodd yn ôl.

2. Bydd mabwysiadu'r dull hwn yn ein helpu i ddatblygu a sefydlu diwylliant drwy'r Cynulliad lle byddwn yn ceisio nodi, dadansoddi, rheoli a monitro'r risgiau y byddwn yn eu hwynebu ac i gael y mwyaf o'r cyfleoedd posibl i wella ein perfformiad ar lefel strategol, lefel y rhaglenni, lefel y prosiectau a lefel weithredol yn barhaus ac yn gyson. Bydd hefyd yn sicrhau bod prosesau a sianelau cyfathrebu effeithiol ar waith i alluogi staff i nodi risgiau a buddion.

3. Rydym eisiau i staff weld buddion cyflwyno syniadau ac awgrymiadau i wneud gwelliannau. Mae datgan bod problemau neu fannau gwan yn bodoli yn llunio rhan o hyn, ond gyda chanlyniad cadarnhaol – sef y bydd yn gwella pethau i ni, i Aelodau'r Cynulliad, ac i'n holl ymwelwyr.

4. Dylid sylfaenu penderfyniadau i gymryd risgiau ar ddealltwriaeth o'r math o risg dan sylw a lefel y risg honno, ynghyd â chymryd camau a gwneud gwaith monitro clir i'w rheoli. Rydym eisiau cael ein rhybuddio'n fuan ynglŷn â phroblemau posibl, ond rydym hefyd eisiau grymuso ein staff i gymryd y risgiau *addas*.

Adran 2: Y parodrwydd i gymryd risg

5. Rydym yn cymryd risgiau yn ein bywydau bob dydd, ac rydym yn eu goddef neu'n eu rheoli heb feddwl amdanynt ryw lawer. Ond fel sefydliad, mae angen i ni ddeall faint o risg y gallwn ei oddef. Rydym eisiau cymryd risgiau a reolir yn dda a chymryd mantais o'r cyfleoedd i wella, ond mae angen i ni wneud hyn mewn ffordd bendant i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a'n bod yn treulio ein hamser yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

6. Byddem yn defnyddio ychydig neu ddim egni wrth reoli risgiau sy'n annhebygol iawn o godi (tebygolrwydd isel) neu a fyddai'n effeithio ar ddim ond rhan fach o'r sefydliad (effaith isel). Byddem yn disgwyl gwneud rhywbeth ynghylch risgiau sy'n debygol o achosi embaras neu a fyddai'n effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hamcanion hirdymor (effaith uchel) neu sy'n debygol o ddigwydd (tebygolrwydd uchel). Mae angen i ni ystyried hefyd a yw cymryd rhai camau gweithredu yn golygu cymryd gormod o risg, efallai o ran ein diogelwch, ein perthynas â'n cyflogeion neu'n henw da.

7. Byddai cael dealltwriaeth glir o'n parodrwydd i gymryd risg yn ein helpu i:-
   - achub ar gyfleoedd a gwneud penderfyniadau hyddysg;
   - annog rheolwyr i fesur a chymharu risgiau;
   - nodi adnoddau sy'n cael eu gwastraffu ar risgiau rydym yn barod i'w goddef a'u defnyddio mewn meysydd lle mae'r risg yn uwch ac yn hanfodol i'r busnes; a
   - pennu amcanion yn sgil y risgiau.

8. Bydd parodrwydd sefydliad i gymryd risg yn dibynnu ar ei faint, pa mor gymhleth yw'r sefydliad a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo. O ran y Cynulliad, er ein bod yn sefydliad eithaf bach, mae gennym broffil cyhoeddus uchel ac, oherwydd hynny, mae angen i ni ddangos ein bod yn llywodraethu'n effeithiol. Felly, mae angen i ni fod yn glir yngl□n â faint o risgiau rydym yn barod i'w goddef.

9. Ceir manylion y matrics sgorio ar gyfer ein parodrwydd i gymryd risg, ynghyd â'r diffiniadau a'r dulliau ar gyfer mesur ein risgiau, yn y ddogfen ar ein Proses Rheoli Risg a Buddion sy'n ategu'r polisi hwn.

Adran 3: Cyfrifoldebau

10. Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth yw sicrhau y caiff y polisïau a'r prosesau rheoli risg a buddion eu gweithredu a'u cyfathrebu i'r staff perthnasol yn eu meysydd gwasanaeth. Mae gan bob aelod o staff y cyfrifoldeb i gefnogi ac ymwreiddio'r polisi hwn.

11. Ceir y gwahanol lefelau o gyfrifoldeb am reoli risgiau a buddion y Cynulliad isod:
   - Mae **Comisiwn y Cynulliad**, sy'n gyfrifol am osod nodau ac amcanion strategol y sefydliad ac adolygu ein perfformiad o ran eu cyflawni, yn chwarae rôl bwysig mewn goruchwylio ac adolygu ein trefniadau rheoli risg a buddion, drwy ganolbwyntio'n benodol ar y risgiau a'r buddion strategol mwyaf sylweddol.
   - Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae'r **Prif Weithredwr** yn gyfrifol am asesu a rheoli'r risgiau sy'n wynebu'r Cynulliad fel rhan o'r system o reoli mewnol i geisio cyflawni nodau, amcanion a pholisïau'r sefydliad.
   - **Y Bwrdd Rheoli** sy'n gyfrifol am sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei sefydlu'n effeithiol yn y Cynulliad, ac am adolygu'r risgiau a'r buddion gweithredol strategol a mwyaf sylweddol yn rheolaidd.
   - Mae gan y **Cyfarwyddwyr** rôl arweiniol i'w chwarae mewn adolygu'r risgiau gweithredol mwyaf sylweddol o fewn y Gyfarwyddiaeth, yn ogystal â chyfrannu at reoli'r risgiau strategol yn effeithiol.
   - Mae'r **Penaethiaid Gwasanaeth** yn cadw'r Gofrestr Risg Gweithredol ar gyfer eu Gwasanaeth ac yn sicrhau y rheolir risgiau'n effeithiol. Maent yn gyfrifol am reoli risgiau canolig ac isel yn uniongyrchol ac am amlygu risgiau sylweddol (risgiau uchel neu gritigol) ac unrhyw risgiau sy'n datblygu i fod yn rhai sylweddol. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfleoedd yn bodoli i staff gyfrannu syniadau ac

awgrymiadau ar gyfer gwelliannau ac am ddefnyddio'r dulliau o roi adborth yn effeithiol er mwyn amlygu risgiau neu welliannau posibl i wasanaethau.
- Mae'r **Byrddau Prosiect a'r Byrddau eraill** yn gyfrifol am sicrhau bod y risgiau a'r buddion sy'n gysylltiedig â'u gwaith yn cael eu nodi a'u rheoli.
- Mae'r **holl staff** yn gyfrifol am amlygu risgiau posibl ac am gynnig awgrymiadau a syniadau ynghylch sut i wella pethau, ac i hysbysu rhywun ynghylch mannau gwan neu feysydd sy'n achosi problemau - o fewn eu gwasanaeth hwy a'r tu allan iddo. Dylent hysbysu eu rheolwr llinell, yr Hyrwyddwr Risg neu Bennaeth y Gwasanaeth fel y gellir cyfyngu'r risgiau, eu hasesu a'u monitro. Gall staff hefyd amlygu risgiau a materion ac awgrymu gwelliannau drwy ddefnyddio'r dulliau i gyflwyno syniadau ac amlygu mannau gwan.
- Mae'r **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** yn gyfrifol am adolygu'r system reoli fewnol, gan gynnwys effeithiolrwydd y trefniadau i reoli risg. Mae'r Pwyllgor yn craffu ar yr adroddiadau archwilio ar lywodraethu, rheoli mewnol a risg ac yn herio a monitro ymateb y rheolwyr i'r argymhellion a wneir.

12. Datblygwyd y rolau a ganlyn i lywio'r broses o sefydlu dull o reoli risg a buddion drwy'r sefydliad:
    - Y **Cynghorwr Risg a Buddion** sydd â'r cyfrifoldeb corfforaethol dros sicrhau bod rheoli risg a buddion yn cael ei gynnwys mewn cynlluniau a pholisïau cyfredol a bod pobl yn meddwl amdano. Mae'n gyfrifol hefyd am ddatblygu a rheoli prosesau i gyfyngu, monitro ac amlygu'r risgiau a nodir, ac am roi cyngor i feysydd gwasanaeth ynghylch nodi a rheoli risgiau.
    - Mae'r **Hyrwyddwr Risg** ym mhob maes gwasanaeth yn gyfrifol am gefnogi'r broses o ddatblygu a gweithredu'r polisi a'r prosesau o fewn eu meysydd gwasanaeth ac am fonitro, adolygu a herio'r risgiau a nodir, y rheolaethau sydd ar waith a'r camau a gymerir i liniaru'r risgiau ymhellach. Yr Hyrwyddwyr Risg yw aelodau'r Fforwm Rheoli Risg a Buddion, sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod meysydd sy'n achosi problemau neu lle y caiff gwaith ei ddyblygu, a syniadau ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'n prosesau i reoli risg a buddion.

13. Ceir mwy o fanylion am y rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer y categorïau risg yn Atodiad 1 i'r polisi hwn.

Adran 4: Y prosesau a'r trefniadau allweddol ar gyfer adrodd yn ôl

14. Dyma'r cylch ar gyfer ein dull o reoli risg a buddion:

Nodi ⇨ Asesu/Mesur ⇨ Cofnodi ⇨ Rheoli ⇨Monitro/Adolygu ⇨ Adrodd yn ôl

15. Mae'n bwysig ein bod yn nodi risgiau posibl a chyfleoedd posibl ar gyfer gwella yn gyson a'n bod yn deall sut y bydd hyn yn cael ei reoli. Gwnawn hyn drwy ddefnyddio categorïau o risg, fel yr amlinellir isod:

Risgiau gweithredol
Mae'r dull hwn yn golygu bod y Penaethiaid Gwasanaeth, gyda chefnogaeth Hyrwyddwr Risg y maes gwasanaeth, yn nodi'r risgiau gweithredol allweddol sy'n berthnasol i'w meysydd gwasanaeth, mewn ymgynghoriad â staff. Bydd y broses asesu'n cynnwys ystyried: y raddfa risg gynhenid (os nad oes rheolaethau ar waith); y mesurau rheolaeth a'r mesurau wrth gefn sydd ar waith; y raddfa risg weddilliol (gan ystyried y rheolaethau sydd ar waith); ac unrhyw gamau eraill sydd angen eu cymryd i liniaru'r risg.

Bydd y risgiau gweithredol hyn wedyn yn cael eu cynnwys mewn Cofrestri Risgiau Gweithredol ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth. Bydd y Penaethiaid Gwasanaeth neu Hyrwyddwr Risg y maes gwasanaeth yn trosglwyddo'r risgiau sy'n debygol o ddatblygu i fod yn rhai sylweddol (y rheini sy'n debygol o ddatblygu i gael statws uchel neu gritigol) i'r Cyfarwyddwr perthnasol. Byddant hefyd yn hysbysu'r Cynghorwr Risg a Buddion fel y gellir cofnodi'r risgiau hyn ar y Gofrestr Risgiau Gweithredol Sylweddol. Bydd y cofrestri gweithredol hyn yn cael eu monitro a'u hadolygu'n fanwl bob chwarter blwyddyn.

Risgiau strategol
Risgiau strategol yw'r rheini allai amharu ar ein hymdrechion i gyflawni'r nodau a bennwyd gan Gomisiwn y Cynulliad neu ein rhwystro rhag eu cyflawni, yn ogystal â nodau trawsbynciol y sefydliad. Bydd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am nodi a rheoli risgiau strategol, mewn ymgynghoriad a'r Bwrdd Rheoli. Bydd y Cynghorwr Risg a Buddion yn cynorthwyo'r broses hon drwy gynhyrchu a chadw Cofrestr Risgiau Strategol a thrwy gydgysylltu'r broses monitro ac adolygu.

Risgiau o ran rhaglenni a phrosiectau
Bydd y risgiau i ganlyniadau rhaglenni a phrosiectau'n cael eu nodi yn y cyfnod cynllunio a, lle bo hynny'n addas, bydd camau lliniaru'n cael eu cynnwys yng nghynlluniau unrhyw brosiect. Bydd rheolwyr y rhaglenni/prosiectau yn cynhyrchu ac yn cadw cofrestri risg.

16. Bydd adroddiadau rheolaidd ar reoli risgiau yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Rheoli, i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, ac i Gomisiwn y Cynulliad. Bydd yr adroddiadau hyn yn canolbwyntio ar newidiadau yn statws y risgiau, pa mor ddigonol yw'r rheolaethau, a phryd y bydd y risgiau'n ymddangos, ac yn amlygu unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt na chafodd eu cwblhau fel y cynlluniwyd. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cysylltu â pharodrwydd y gynulleidfa benodol i gymryd risg a lefel cyfrifoldeb y gynulleidfa honno.

17. Ceir mwy o fanylion yngl□n â'r gweithdrefnau, y prosesau a'r trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl yn y ddogfen am y Broses Rheoli Risg a Buddion sy'n ategu'r polisi hwn.

Adran 5: Canlyniadau

18. Mae rheoli risg a buddion yn garreg sylfaen allweddol i reolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol effeithiol. Bydd cael fframwaith ar gyfer rheoli risgiau a buddion a phroses clir o uwchraddio yn helpu'r Cynulliad i sicrhau y bydd problemau'n cael eu datrys yn fuan, cyn iddynt ddod yn broblemau o wir bwys.

19. Yr allwedd i lwyddiant y dull hwn yw adolygu cyson a chyflwyno adroddiadau perthnasol yn amserol ar y lefel addas. Caiff y llwyddiant ei fesur drwy'r canlynol:
- hyder y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a'r Bwrdd Rheoli yn y broses, a'r adroddiadau a gaiff y Bwrdd;
- ymrwymiad y Penaethiaid Gwasanaeth, a sicrhau eu bod yn gweld buddion y broses o ran darparu gwasanaethau;
- bod y staff yn chwarae rhan lawn yn y broses, ac yn nodi ac yn asesu risgiau;
- tystiolaeth bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol - bod y tebygolrwydd y ceir risgiau yn cael ei leihau a bod eu heffaith yn cael ei leihau os cânt eu gwireddu;
- hyder y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Chomisiwn y Cynulliad yn y broses; a
- adolygiad cadarnhaol yn dilyn archwiliadau mewnol ac allanol, sy'n rhoi sicrwydd "sylweddol".

20. Bydd y fframwaith, y polisi a'r prosesau i reoli risg a buddion yn cael eu hadolygu'n flynyddol i fesur yr effeithlonrwydd a'r effeithiolrwydd, gan ystyried arfer da cydnabyddedig.

Atodiad A: Manylion y cyfrifoldebau yn ôl categori'r risg

Isod ceir disgrifiad o'r cyfrifoldebau dros wahanol gategorïau o risgiau a buddion, gan gynnwys camau gweithredu rheolaidd a pharhaus:

Risgiau A Buddion Strategol

Y prif gyfrifoldeb: Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr

Cefnogir gan: Cynghorwr Risg a Buddion y Cynulliad

Mewnbwn gan: Y Penaethiaid Gwasanaeth, Comisiwn y Cynulliad, y Comisiynwyr perthnasol, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (i gynghori ac i roi sicrwydd yngl□n ag ansawdd) ac archwilwyr mewnol/allanol.

Beth sydd angen ei wneud:

- Asesu beth allai ein hatal neu ein llesteirio rhag cyflawni nodau ac amcanion strategol y Cynulliad neu ein helpu i'w cyflawni;
- Edrych i'r dyfodol a bod yn ymwybodol o risgiau y mae angen uwchraddio eu statws;
- Nodi ac asesu risgiau sy'n ymwneud â blaenoriaethau newydd/sy'n ymddangos, newidiadau o bwys i wasanaethau a phrosiectau;
- Adolygiadau rheolaidd o'r risgiau gweithredol strategol a sylweddol a nodir, sicrhau bod rheolaethau digonol ar waith, a chymryd camau pellach a'u monitro i liniaru neu leihau'r risgiau;
- Papurau strategaeth ar gyfer gwneud penderfyniad i gynnwys asesiad risg a buddion; ac
- Adolygu'r log cwynion a'r *adborth* o bob ffynhonnell.

Pryd:

- monitro parhaus; adolygiad manwl bob chwarter o'r Gofrestr Risg Strategol.

Risgiau A Buddion Gweithredol

Y prif gyfrifoldeb: Y Penaethiaid Gwasanaeth

Cefnogir gan: Cynghorwr Risg a Buddion y Cynulliad a'r Fforwm Rheoli Risg a Buddion (Hyrwyddwyr Risg y meysydd gwasanaeth).

Mewnbwn gan: Y Cyfarwyddwyr a Byrddau'r Gyfarwyddiaeth.

Beth sydd angen ei wneud:

- Paratoi cynlluniau gwasanaeth blynyddol i ategu nodau ac amcanion strategol y Cynulliad, ystyried beth allai atal neu lesteirio'r gwasanaeth rhag gwireddu ei amcanion neu ei helpu i'w gwireddu, a beth allai effeithio ar ei safonau. I gynnwys proses o ystyried parhad busnes;
- Sicrhau bod yr holl dîm yn cymryd rhan, yng nghyfnod cynllunio'r gwasanaeth a thrwy gydol y flwyddyn, gyda chyfarfodydd tîm i drafod risgiau a chyfleoedd posibl;
- Datblygu a chadw logiau adborth o gwynion a chanmoliaeth gan randdeiliaid, neu gael dulliau o adolygu boddhad cwsmeriaid;
- Cynnwys argymhellion archwilio mewn Cynlluniau Gwasanaeth blynyddol, os yw hynny'n addas;
- Nodi ac asesu'r risgiau sy'n ymwneud â blaenoriaethau newydd/sy'n ymddangos, newidiadau o bwys i'r gwasanaeth a phrosiectau; a
- Adolygu'r gofrestr risg yn rheolaidd - mwy o ffocws ar risgiau a buddion â statws uwch a hysbysu'r Cynghorwr Risg a Buddion ynglŷn â newidiadau a materion sylweddol.

Pryd: monitro ac adolygu'r risgiau gweithredol yn barhaus; cynnal trafodaeth gyda'r Cyfarwyddwr pan fydd materion neu feysydd sy'n achos pryder yn codi; y Cynghorwr Risg a Buddion i gyflwyno cofrestr risgiau gweithredol pob chwarter i'r Cyfarwyddwyr.

Atodiad B: Perthynas â pholisïau eraill

Mae ein **Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol** wedi'i seilio ar egwyddorion a darpariaethau ategol y mae bwriad iddynt helpu i feithrin diwylliant gweithredol derbyniol drwy'r sefydliad. Mae'r Fframwaith Rheoli Risg a Buddion yn llunio rhan allweddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol oherwydd bydd yn cynorthwyo'r broses rheoli risgiau busnes allweddol.

Rydym hefyd yn rheoli risgiau drwy ein polisïau a'n strategaethau corfforaethol eraill, a ddatblygwyd gyda'r diben o reoli risgiau sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth a llywodraethu. Mae'n werth sôn am rai rhannau o'r polisi hwn, sef:

Parhad busnes
Fel y nodwyd uchod, mae rheoli risg a buddion yn disgrifio'r diwylliant a'r gweithdrefnau sydd ar waith i'n galluogi i nodi, asesu a rheoli risgiau posibl. Mae rheoli parhad busnes yn ein galluogi i gynllunio ar gyfer risgiau neu fygythiadau posibl a allai effeithio ar sut rydym yn cyflenwi ein gwasanaethau. Mae'n nodi ein gweithgareddau busnes critigol ac yn ein galluogi i roi ymateb ystyrlon i'r risgiau neu'r bygythiadau sy'n ymddangos.

Iechyd a diogelwch
Mae Strategaeth Rheoli Risg Iechyd a Diogelwch y Cynulliad yn ceisio gwarchod, cyn belled â'i bod yn rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles holl staff Comisiwn y Cynulliad, yr Aelodau a phawb yr effeithir arnynt gan ei weithgareddau - Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999(3). Mae hyn yn cwmpasu dull holistaidd a rhagweithiol at reoli risigau iechyd a diogelwch na ellir eu dileu. Mabwysiadwyd dull ymarferol i gael yr arfer gorau, wedi ei seilio ar egwyddorion rheoli colledion ac ansawdd.

Bwriedir i'r dull hwn:
- **Fynd i'r afael â** goblygiadau iechyd a diogelwch amrywiol weithgareddau'r Cynulliad
- **Nodi** peryglon ac **asesu** lefel y risg;
- **Cael gwared ar** risgiau lle bo hynny'n bosibl;
- **Lleihau** effaith y risgiau hynny na ellir eu dileu.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Fframwaith Rheoli Risg A Buddion

Rhan 2: Y Broses Rheoli Risg A Buddion

Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Cyfrifoldebau

3. Y broses

- Nodi
- Asesu/mesur (yn cynnwys parodrwydd i gymryd risg a matricsau sgorio)
- Cofnodi
- Rheoli
- Monitro/adolygu
- Adrodd yn ôl

4. Ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r risgiau a'r buddion

Atodiad A: Diffiniadau o'r effeithiau

Atodiad B: Terminoleg

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r dull a fydd yn cael ei fabwysiadu a'r prosesau a ddilynir i weithredu Polisi Rheoli Risg a Buddion y Cynulliad. Mae wedi ei anelu'n bennaf at y rheini sy'n gyfrifol am weithredu a rheoli'r broses o reoli risg a buddion ffurfiol, fel yr amlinellir isod.

Dyma'r **cylch** ar gyfer ein dull o reoli risg a buddion:

Nodi ⇨Asesu/Mesur ⇨Cofnodi ⇨Rheoli ⇨Monitro/adolygu ⇨Adrodd yn ôl

Mae cyngor a chanllawiau pellach am sut y rhoddir y broses hon ar waith ac ar gyfer nodi risgiau a buddion ar gael gan Gynghorwr Risg a Buddion y Cynulliad.

2. Cyfrifoldebau

Fel y nodir yn y Polisi Rheoli Risg a Buddion, mae gan **yr holl staff** gyfrifoldeb dros hysbysu eu rheolwyr ynglŷn â'r risgiau posibl a'r cyfleoedd i wella y maent yn eu nodi.

- Mae'r **Penaethiaid Gwasanaeth** yn gyfrifol am sicrhau y gweithredir y prosesau sy'n cael eu disgrifio isod ar gyfer **risgiau gweithredol**. Bydd yr **Hyrwyddwr Risg** ym mhob maes gwasanaeth yn rhoi cymorth drwy'r cylch o reoli risgiau gweithredol.
- **Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr** sy'n gyfrifol am sicrhau bod y prosesau hyn yn cael eu gweithredu ar gyfer **risgiau strategol**, gyda chefnogaeth y **Cynghorwr Risg a Buddion**.
- Y **Rheolwyr Rhaglen / Prosiect** sy'n gyfrifol am weithredu'r prosesau hyn ar gyfer risgiau o ran rhaglenni / prosiectau.

3. Y broses

Nodi

- Bydd y Penaethiaid Gwasanaeth yn canfod ac yn rheoli'r **risgiau gweithredol** allweddol, drwy ymgynghori â staff, yng nghyfnod cynllunio'r gwasanaeth a thrwy gydol y flwyddyn wrth i faterion godi ac wrth i flaenoriaethau newydd ymddangos.
- Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr fydd yn nodi'r **risgiau strategol** i ddechrau mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Rheoli. Bydd y risgiau a nodir yn cael eu hadolygu'n fanwl yn flynyddol, o gwmpas y blaenoriaethau a osodir am y flwyddyn i ddod. Bydd eitemau rheolaidd ar agenda cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli hefyd i ystyried y risgiau posibl sy'n codi wrth gyflawni ein nodau strategol.
- Bydd y risgiau o ran cyflawni canlyniadau **rhaglenni a phrosiectau'n** cael eu nodi yn y cyfnod cynllunio. Bydd camau gweithredu lliniarol yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau prosiect, lle bo hynny'n bosibl.

Asesu/Mesur

Asesir y risgiau a'r buddion mewn perthynas â'u **heffaith** (effaith y risg/budd yw'n digwydd) a'r **tebygolrwydd** (y tebygolrwydd y bydd yn digwydd). Caiff yr effaith a'r tebygolrwydd eu mesur gan ddefnyddio matrics sgorio a ganlyn – mae Atodiad A yn rhoi diffiniadau ategol manwl ar gyfer yr effaith. Er bod y matrics yn canolbwyntio ar risgiau, i hwyluso'r broses, gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer buddion/cyfleoedd ar gyfer gwella.

Sgôr	Graddfa'r effaith	Diffiniad o'r effaith
1	Isel	Byddai'n cael ychydig o effaith neu ddim effaith amlwg ar yr amcanion gweithredol neu gorfforaethol.
2	Cymedrol	Byddai'n cael effaith amlwg, a fyddai'n effeithio ar effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd y gwasanaeth, ond ni fyddai'n arwain at fethu cyflawni'r amcanion gweithredol neu gorfforaethol yn llwyr.
3	Canolig	Byddai'n arwain at fethu cyflawni amcanion gweithredol ond ni fyddai'n golygu bod risg i'r amcanion corfforaethol, ac ni fyddai'n cael effaith ehangach drwy weddill y Cynulliad.
4	Uchel	Byddai'n effeithio ar berfformiad yn erbyn un neu fwy o'r amcanion corfforaethol, a gallai beryglu sut y mae'r Cynulliad yn gweithio (llai na 24 awr).
5	Critigol	Byddai'n golygu na allai'r Cynulliad weithio am fwy na 24 awr ar adegau critigol i fusnes y Cynulliad; byddai'n achosi embaras mawr i'r Comisiynwyr a'r Bwrdd Rheoli; neu gallai arwain at gamau amhriodol yn cael eu cymryd gan y Swyddog Cyfrifyddu.

Sgôr	Graddfa'r tebygolrwydd	Diffiniad o'r tebygolrwydd
1	Isel	Mae'n annhebygol iawn y bydd yn digwydd, tebygolrwydd o 0-5%.
2	Cymedrol	Gallai ddigwydd, ond eto mae'n annhebygol iawn, tebygolrwydd o 5-10%.
3	Canolig	Tebygolrwydd o 10-40% y bydd hyn yn digwydd.
4	Uchel	Tebygolrwydd o 40-70% y bydd hyn yn digwydd.
5	Critigol	Mae'n digwydd eisoes neu mae'n debygol y bydd yn digwydd, tebygolrwydd o 70-100%.

Pennir “statws y risg/budd” drwy fesur effaith a thebygolrwydd y risg yn erbyn **parodrwydd y Cynulliad i gymryd risg**, sy’n cynnwys y graddfeydd a ganlyn:
- Isel;
- Canolig;
- Uchel; neu
- Gritigol, fel y dangosir isod:

		Effaith				
	Graddfa	**Isel**	**Cymedrol**	**Canolig**	**Uchel**	**Critigol**
Tebygolrwydd	**Critigol 70-100%**	Graddfa ganolig	Graddfa ganolig	**Graddfa uchel**	**Graddfa gritigol**	**Graddfa gritigol**
	Uchel 40-70%	Graddfa ganolig	Graddfa ganolig	**Graddfa uchel**	**Graddfa gritigol**	**Graddfa gritigol**
	Canolig 10-40%	Graddfa isel	Graddfa ganolig	Graddfa ganolig	**Graddfa gritigol**	**Graddfa uchel**
	Cymedrol 5-10%	Graddfa isel	Graddfa isel	Graddfa isel	Graddfa ganolig	Graddfa ganolig
	Isel 0-5%	Graddfa isel	Graddfa isel	Graddfa isel	Graddfa ganolig	Graddfa ganolig

Mae’r raddfa risg/budd yn ein harwain at y cam o benderfynu beth i’w wneud, a byddwn yn defnyddio’r wybodaeth ynghylch y **parodrwydd i gymryd risg** i’n helpu i wneud penderfyniadau yngl□n â’r defnydd gorau o adnoddau.

Ystyrir lefel y risg mewn dwy ran:
1. Y risg gynhenid – *sef effaith a thebygolrwydd y risg os na wneir unrhyw ymdrech i’w rheoli, neu os yw’r ymdrechion i’w rheoli yn methu.* Mae’r risg gynhenid yn rhoi arweiniad o ran pwysigrwydd y risg os yw’r broses reoli yn methu neu os nad oes proses o’r fath ar waith. Mae hyn yn rhoi man cychwyn i ni benderfynu ar lefel y rheolaeth y dylid ei gweithredu.
2. Y risg weddilliol – *sef yr effaith a’r tebygolrwydd y mae’r risg yn eu cynrychioli gan ystyried y rheolaethau sydd ar waith i’w rheoli.* Y risg a reolir yw’r lefel y mae’r risg yn ei chynrychioli ar hyn o bryd i’r Cynulliad, o gofio’r camau rydym yn eu cymryd ar hyn o bryd i’w rheoli.

Wrth ystyried y buddion, dylai lefel y budd ganolbwyntio’n bennaf ar beth sy’n rhaid ei roi ar waith i sicrhau’r budd hwnnw – h.y. y budd a reolir.

Mae ein parodrwydd i gymryd risg yn pennu **sut rydym yn rheoli'r** risg/budd:

Risgiau/ buddion isel	Y Penaethiaid Gwasanaeth sy'n rheoli'r risgiau a'r buddion sydd â graddfa isel. Dylid defnyddio cyn lleied â phosibl o adnoddau i reoli'r risgiau a'r buddion hyn. Gellir eu goddef, ac nid oes yn rhaid gweithredu os yw'r adnodd yn bwysicach na'r budd
Risgiau/ buddion canolig	Y Penaethiaid Gwasanaeth sydd hefyd yn rheoli'r risgiau a'r buddion sydd â graddfa ganolig. Dylid cynyddu pwysigrwydd y risgiau hyn a'u trosglwyddo i un o'r Cyfarwyddwyr os oes unrhyw bryder bod graddfa'r risg yn cynyddu i fod yn raddfa uchel. Rhaid cynnal briff gwylio yn fisol, ac efallai y byddai'n addas cael cynlluniau wrth gefn.
Risgiau/ buddion uchel	Y Bwrdd Rheoli sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau am risgiau a buddion sydd â graddfa uchel, a bydd y Cyfarwyddwyr yn hysbysu'r Comisiynydd sydd â'r portffolio perthnasol ynglŷn â'u natur a sut i'w rheoli. Rhaid rheoli risgiau uchel gyda'r diben o leihau'r raddfa risg drwy reolaeth gost-effeithiol. Rhaid rheoli buddion uchel i sicrhau gwelliannau. Rhaid sefydlu cynlluniau wrth gefn i ymdrin â gwaith sydd â risg uchel.
Risgiau/ buddion critigol	Mae angen i Gomisiwn y Cynulliad wneud penderfyniadau a rhoi ei farn ynglŷn â risgiau critigol, a rhoi trosolwg ohonynt, gan dderbyn cyngor gan y Bwrdd Rheoli. Bydd y Bwrdd Rheoli a'r Comisiwn yn cynnal adolygiadau trylwyr o'r risgiau critigol a *reolir*.

Cofnodi

Dylid asesu a chofnodi risgiau a buddion gan ddefnyddio ffurflen asesu risg ar dudalen. Ceir templad o'r ffurflen ar y Fewnrwyd. http://aps/presidingoffic/fees-office/Risk%20&%20Benefits%20Management/index.htm

Mae angen trosglwyddo'r wybodaeth i'r cofrestri canolog. Defnyddir tri math o gofrestr risg ganolog:

1. Cofrestr Risgiau Strategol - risgiau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni'r pum nod strategol a osodwyd gan Gomisiwn y Cynulliad a'r risgiau trawsbynciol sydd â natur swyddogaethol;

2. Cofrestri Risigau Gweithredol – y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad sydd â natur swyddogaethol ac sy'n gysylltiedig yn benodol â meysydd gwasanaeth;

3. Cofrestr Risigau Gweithredol Sylweddol – pob risg "uchel" a "chritigol" o'r Cofrestri Risgiau Gweithredol.

Y Cynghorwr Risg a Buddion sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y Gofrestr o Risgiau Strategol a'r Gofrestr o Risgiau Gweithredol Sylweddol ac am ffeilio'r cofnodion perthnasol mewn ffeiliau cofrestredig i'w cadw'n ganolog. Y Penaethiaid Gwasanaeth a'r

Hyrwyddwyr Risg sy'n gyfrifol am lenwi a chadw'r Cofrestri Risgiau Gweithredol ac am ffeilio'r cofnodion perthnasol mewn ffeiliau cofrestredig i'w cadw gan bob gwasanaeth.

Rheolwyr y rhaglenni / prosiectau a fydd yn creu ac yn cynnal y cofrestri risg ar gyfer risgiau rhaglen / prosiect.

Bydd y cofrestri risg a'r papurau ategol yn cael eu cadw am chwe blynedd.

Rheolaeth, cynlluniau wrth gefn a chamau gweithredu

Wedi i ni nodi ac asesu risg neu fudd a phenderfynu a ydym yn barod i gymryd y risg, bydd angen cymryd camau i'w rheoli, a allai gynnwys:

- **Dileu'r risg** - bydd cynifer o risgiau sylweddol yn gysylltiedig â rhai gweithgareddau fel y bydd angen eu dileu i osgoi'r tebygolrwydd y bydd risg yn bodoli;
- **Goddef y risg** - gall yr adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â risg neu agweddau arni fod yn anghymesur â'r buddion a geir, felly gellir gweithredu elfen o oddefgarwch wedi'i reoli;
- **Ymdrin â'r risg** – bydd yn rhaid dileu y rhan fwyaf o'r agweddau ar y rhan fwyaf o risgiau (lle bo hynny'n bosibl) neu eu cadw at lefel dderbyniol, drwy reolaethau a dulliau lliniaru mewnol. Bydd ymdrin â buddion yn arwain at eu sicrhau;
- **Trosglwyddo'r risg** – lle na fydd risg neu agwedd arni sydd wedi'i diffinio yn cael ei rheoli gan y Cynulliad, gellid trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ymdrin â'r risg neu'r agweddau hynny arni (drwy gytundeb) i barti addas. Ar gyfer risgiau uchel neu gritigol yn benodol, mae'n debygol y bydd y parti arall yn ymdrin â'r risg, ac na fydd y cyfrifoldeb drosti'n cael ei drosglwyddo'n llwyr.

Bydd y rheolaethau a'r cynlluniau wrth gefn sydd ar waith, yn ogystal â'r camau lliniaru pellach, yn cael eu cofnodi yn y cofrestri a byddant yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd.

Monitro, adolygu ac adrodd yn ôl

Fel y nodir uchod, y Cynghorwr Risg a Buddion a fydd yn cadw ac yn cynnal y cofrestri canolog ar gyfer **Risgiau Strategol** a **Risgiau Gweithredol Sylweddol**. Bydd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn adolygu'r cofrestri hyn yn fanwl bob tri mis a bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Rheoli.

Bydd y Penaethiaid Gwasanaeth, gyda chefnogaeth yr Hyrwyddwr Risg, yn cynnal ac yn adolygu'r **Cofrestri Risgiau Gweithredol** ar gyfer eu gwasanaeth. Bydd pob risg sydd â graddfa "uchel" neu "gritigol" yn cael ei chyflwyno i'r Cynghorwr Risg a Buddion, fel y gellir ei hychwanegu at y Gofrestr Risgiau Sylweddol ganolog.

Ym mhob adolygiad chwarterol, cyflwynir y cofrestri i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr gydag adroddiad yngl□n â pha mor addas yw'r rheolaethau, y risgiau sy'n bodoli, y newidiadau yn y graddfeydd risg a'r cynnydd yn erbyn unrhyw gamau gweithredu.

Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar y risgiau a'r buddion critigol i Gomisiwn y Cynulliad. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael adroddiadau a fydd yn crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol i'r cofrestri risg neu'r prosesau i ymdrin â risgiau.

4. Ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r risgiau a'r buddion

Mae'n bwysig ein bod yn casglu ac yn defnyddio unrhyw adborth a geir i'n hysbysu ynghylch unrhyw risgiau neu welliannau posibl i'n gwasanaethau. Mae Atodiad A i'r Polisi Rheoli Risg a Buddion yn cyfeirio at gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr a'r Penaethiaid Gwasanaeth i ddatblygu, cynnal ac adolygu'r logiau cwyno a'r adborth gan bob ffynhonnell.

Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys:
- log o'r cwynion gan y cyhoedd;
- arolygon cyhoeddus;
- arolygon o foddhad Aelodau;
- cofrestr o'r mannau gwan a'r awgrymiadau ar gyfer gwelliannau (llinell syniadau); a
- mecanweithiau adborth ar lefel y gwasanaeth.

Atodiad A

Asesiad Effaith	Effaith Isel	Effaith Gymedrol	Effaith Ganolig	Effaith Uchel	Effaith Gritigol
Amharu ar ddarparu gweithredol arferol	Ni fyddai'n cael llawer o effaith, neu byddai dim effaith, ar weithrediadau.	Byddai pobl yn sylwi arno, ond gellid ymdrin â'r effaith drwy addasu'r drefn neu'r gweithdrefnau arferol.	Byddai'n effeithio ar nifer o wasanaethau, ond gallai'r Cynulliad barhau i weithio, ond byddai safonau'n cael eu cyfaddawdu.	Byddai gweithrediad priodol y Cynulliad yn cael ei effeithio am hyd at 24 awr ar adegau critigol i fusnes y Cynulliad.	Byddai gweithrediad priodol y Cynulliad (Cyfarfod Llawn a Phwyllgorau) yn cael ei effeithio am dros 24 awr ar adegau critigol i fusnes y Cynulliad.
Barn yr Aelodau	Gallai un neu ddau o Aelodau gyfleu eu hanfodlonrwydd ond, yn gyffredinol, nid oes anniddigrwydd ymysg yr Aelodau	Mae'n bosibl y bydd rhai Aelodau'n cyfleu eu hanfodlonrwydd ond, yn gyffredinol, nid oes llawer, neu ddim, anniddigrwydd ymysg yr Aelodau.	Anniddigrwydd cyffredinol a pharhaus ymysg yr Aelodau neu codwyd y mater yn ffurfiol gyda'r Llywydd/ Comisiynydd/ Cadeirydd Pwyllgor.	Anfodlonrwydd sylweddol a pharhaus ymysg yr Aelodau neu aelodau gr□p neu bwyllgor penodol.	Lefel uchel o anfodlonrwydd ymysg gr□p mawr neu sylweddol o Aelodau/y Llywydd neu'r Comisiwn.
Niwed i enw da	Cwynion yn fewnol ac o bosibl mewn blogiau, ond dim cyhoeddusrwydd yn y wasg.	Gohebiaeth negyddol mewn papur lleol.	Gohebiaeth negyddol mewn papur cenedlaethol yng Nghymru. Trafodaeth ar lefel y Bwrdd Rheoli.	Gohebiaeth negyddol yn y cyfryngau cenedlaethol, gan gynnwys sianeli teledu yng Nghymru. Anfodlonrwydd o fewn y Comisiwn.	Cyhoeddusrwydd cenedlaethol negyddol parhaus, neu ohebiaeth sy'n achosi embaras mawr iawn.

Ariannol	Yn debygol o fod £10,000 o dan neu dros gyllideb y gwasanaeth.	Yn debygol o fod £20,000 o dan neu dros gyllideb y gwasanaeth.	Yn debygol o fod £30,000+ o dan neu dros gyllideb y gwasanaeth. Gellid tanwario'r gyllideb 5% neu fwy.	Gorwariant o fewn y cyllidebau adnoddau neu ariannol yn eu cyfanrwydd. Adroddiadau archwilio negyddol iawn ar reolaethau allweddol.	Gorwariant o fewn y cyllidebau adnoddau/ ariannol. Twyll ac anonestrwydd difrifol. Cyfrifon yn cael eu gwrthod.
Perthynas â chyflogeion	Rhai unigolion yn dangos anfodlonrwydd o fewn gwasanaeth.	Gallai anfodlonrwydd ymysg tîm cyfan effeithio ar ddarparu'r gwasanaeth os nad ymdrinnir â'r broblem.	Cwynion ar draws y gwasanaethau. Gallai effeithio ar ddarparu'r gwasanaeth os nad ymdrinnir â'r broblem.	Perthynas wael â chyflogeion drwy'r undebau. Y posibilrwydd o weithio yn unol â'r rheolau.	Gweithredu diwydiannol mewn meysydd allweddol sy'n atal busnes rhag parhau.
Diogelwch	Problem weithredol arferol.	Digwyddiad wedi'i gyfyngu, nad yw'n arferol, ond nad yw'n effeithio ar weithrediadau ehangach.	Digwyddiad anarferol wedi'i gyfyngu, sy'n effeithio ar weithrediadau arferol.	Byddai'r Cynulliad wedi'i gyfaddawdu – pobl mewn perygl, mae'n bosibl y byddai'n rhaid gwagio'r adeilad.	Digwyddiad difrifol, rhaid gwagio'r adeilad, bywydau'n cael eu colli

Effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol	Byddai rhai aelodau o staff yn cwestiynu neu'n anwybyddu polisïau amgylcheddol mewnol. Peth gostyngiad mewn effeithlonrwydd.	Diffyg cefnogaeth ar gyfer yr agenda amgylcheddol. Costau adnoddau yn codi wrth i fwy o ynni gael ei ddefnyddio neu wrth i wastraff gynyddu.	Methu cynnal achrediad Lefel 5 y Ddraig Werdd.	Torri amodau deddfwriaeth amgylcheddol neu arllwysiadau/ llygredd. Gweithgareddau yn cael eu dirwyn i ben dros dro.	Methiant hirdymor a chyson i gyflawni amcanion amgylcheddol a chymdeithasol.
Iechyd a Diogelwch	Digwyddiad bach, dim amser wedi'i golli.	Anaf, ond dim amser wedi ei golli.	Anaf, amser wedi'i golli, neu ymwelydd yn gorfod ymweld â'r ysbyty.	Anaf neu straen difrifol. Cyfnod hir o ymadfer.	Colli bywyd neu anaf/anabledd parhaol a allai arwain at ymgyfreitha.

Atodiad B -Terminoleg

Risg	Mae risg yn cyfeirio at ansicrwydd canlyniadau camau gweithredu a digwyddiadau. Mae'n gyfuniad o'r tebygolrwydd yr aiff rhywbeth o'i le a'i effaith, gan gynnwys ei bwysigrwydd tybiedig. Mae'r tablau yn adran 2 ac Atodiad A uchod yn nodi'r diffiniadau o'r effaith.
Budd	Mae budd yn cyfeirio at ganlyniad cadarnhaol defnyddio rheoli risg i wella pethau, a'r effaith o gael diwylliant sy'n ceisio canfod cyfleoedd i wella, ac i ymdrin â mannau gwan, drwy annog staff i gyflwyno syniadau ac awgrymiadau.
Effaith	Effeithiau'r risg os yw'n digwydd. Dyma'r sgoriau ar gyfer hyn: 1 - Isel, 2 - Cymedrol, 3 - Canolig, 4 - Uchel, 5 - Critigol Mae Adran 3 y ddogfen hon yn rhoi'r diffiniadau ar gyfer sut y gweithredir y rhain yn y Cynulliad. Mae Atodiad A yn rhoi diffiniadau manylach o'r effaith.
Tebygolrwydd	Y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd. Dyma'r sgoriau ar gyfer hyn: 1 – Isel, 2 – Cymhedrol, 3 – Canolig, 4 – Uchel, 5 – Critigol Mae Adran 3 y ddogfen hon yn rhoi'r diffiniadau o sut y gweithredir y rhain yn y Cynulliad.
Graddfa risg	Defnyddir y sgoriau tebygolrwydd ac effaith mewn Matrics sy'n dangos parodrwydd y Cynulliad i gymryd risg (gweler Adran 3), sy'n creu graddfa risg gyffredinol. Bydd y risgiau y mae tebygolrwydd uchel y byddant yn digwydd ac sydd ag effaith uchel (ac i'r gwrthwyneb) yn cael eu cofnodi fel Risgiau Critigol.
Risg gynhenid	Effaith y risg a'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd os na wneir ymdrech i'w rheoli, neu os yw'r ymdrech i'w rheoli wedi methu.
Risg weddilliol	Effaith y risg a'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd gan ystyried y rheolaethau sydd ar waith i'w rheoli.
Parodrwydd i gymryd risg	Mae'n dangos faint o risg rydym yn barod i'w oddef a bydd yn llywio sut rydym yn rheoli risgiau/buddion.
Strategol	Y risgiau allweddol a allai amharu arnom neu ein rhwystro rhag cyflawni'r nodau a osodwyd gan Gomisiwn y Cynulliad a'r risgiau hynny hefyd sy'n rhai trawsbynciol o fewn y sefydliad. Cofnodir risgiau o'r fath yn y Gofrestr Risgiau Strategol.

Gweithredol	Risgiau sydd wedi'u canolbwyntio o fewn gwasanaethau penodol, ond gall risgiau ddatblygu'n rhai strategol os ydynt yn effeithio ar wasanaethau eraill neu ar gyflawni nodau strategol.
Sylweddol	Risgiau neu fuddiannau sydd â graddfa uchel neu gritigol.
Cynghorwr Risg a Buddion	Aelod o staff a ddynodir i gynghori ar drefniadau rheoli risg a buddion, ac sy'n adrodd yn ôl ar y cofrestri canolog ar gyfer risgiau neu fuddiannau strategol a sylweddol.
Hyrwyddwr Risg	Cynrychiolwyr o bob maes gwasanaeth i "hyrwyddo" rheoli risg a buddion o fewn eu gwasanaethau ac i gyfrannu at ddatblygu a gweithredu'r polisi a phrosesau.